# Resbiradaeth aerobig

| | |
|---|---|
| RHYS | Tyrd ymlaen, Rhys. Fedri di wneud hyn.<br><br>Hei Chef! Dw i angen help efo cinio dydd Sul. |
| CHEF | Dim problem. Ble wyt ti arni? |
| RHYS | Mae'r cyw iâr yn y popty. Mae'r moron yn coginio, dw i'n meddwl. Y pys sy' nesa. |
| ALFRED | Lawrlwytho arbrawf eginiad pys. |
| RHYS | Beth? Dim diolch, Alfred, Dw i'n trio gwneud cinio dydd Sul. |
| ALFRED | Resbiradaeth aerobig yw'r broses mae celloedd byw'n ei ddefnyddio i ryddhau egni. |
| RHYS | Ooo Alfred. |
| ALFRED | Mae glwcos ac ocsigen yn gwneud carbon diocsid, dŵr ac yn rhyddhau egni. |
| CHEF | Yn hollol!  Glwcos. Defnyddia ychydig o fêl a bydd y grefi'n blasu'n hyfryd. |
| ALFRED | Diolch Chef. Wrth i bys sy'n egino resbiradu, mae'n bosib mesur yr egni maen nhw'n ei ryddhau.<br><br>Hadau yw pys ac eginiad yw pan mae hedyn yn dechrau tyfu. |
| RHYS | A beth am goginio pys? |
| ALFRED | Yn gynta', diheinitia'r pys. Bydd hyn yn lladd unrhyw facteria sydd ar yr arwyneb a'n golygu na fyddan nhw'n resbiradu yn y fflasg. Yna, arllwysa'r pys ffres i un fflasg, a'r un màs o bys wedi'u berwi i fflasg arall. Y fflasg gyda'r pys wedi'u berwi yw'r arbrawf rheoledig, er mwyn cymharu. Mae berwi'n |


© Hawlfraint BBC

dadnatureiddio’r ensymau sydd eu hangen ar gyfer resbiradaeth. Mae gwactod y fflasg yn ynysu’r pys rhag unrhyw newid yn y tymheredd tu allan.

Rho thermomedr yn y ddwy fflasg sy’n llawn pys gan selio’r agoriad gyda gwlan cotwm. Noda dymheredd y ddwy fflasg a chadwa ati i’w nodi trwy gydol yr arbrawf. Dylai’r canlyniadau ddangos bod y tymheredd wedi codi yn y fflasg sy’n llawn pys sy’n egino tra bod y tymheredd yn y fflasg sydd â’r pys wedi’u berwi wedi aros yr un peth. Rwyt ti newydd weld resbiradaeth aerobig ar waith!

CHEF Pys mewn fflasg… fydd e yn fy llyfr ryseitiau newydd!

RHYS Diolch.


© Hawlfraint BBC